# Hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd. Mae hyn yn cynnwys gweithio ag eraill i nodi materion iechyd y mae angen codi ymwybyddiaeth amdanynt, ac yna gweithio fel rhan o dîm i gynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi pryd y mae angen hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
2. cael caniatâd, cael gafael ac adolygu gwybodaeth am faterion iechyd
3. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
4. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i adolygu'r diddordeb mewn hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
5. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i nodi a chytuno ar nodau, amcanion, cynulleidfa darged a datblygu cynllun ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
6. cyflawni'r rolau a'r cyfrifoldebau rydych chi wedi cytuno arnynt i gynnal gweithgareddau i hybu ymwybyddiaeth am faterion iechyd
7. casglu adborth gan gynulleidfaoedd targed ynghylch yr effaith a gafodd gweithgareddau ar hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
8. gwerthuso ag eraill sut mae gweithgareddau hybu wedi cwrdd â'r nodau ac amcanion
9. gweithio mewn partneriaeth i nodi arferion da ac argymell newidiadau i weithgareddau hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd yn y dyfodol
10. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth a fydd yn llywio eich ymarfer ar hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
2. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i nodi a datblygu nodau, amcanion a chynlluniau i hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
3. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
4. sut mae adnabod ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd targed drwy weithgareddau hybu
5. y gwahanol weithgareddau, yr adnoddau cysylltiedig, a sut mae dewis yr opsiwn sydd fwyaf addas ar gyfer materion iechyd a chynulleidfaoedd targed
6. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar weithgareddau hybu sy'n gysylltiedig â materion iechyd
7. dylanwad diwylliant, cefndir a ysbrydolrwydd ar weithgareddau hybu sy'n gysylltiedig â materion iechyd
8. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
9. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithgareddau hybu sy'n gysylltiedig â materion iechyd
10. sut mae hybu a defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol ar gyfer gweithgareddau ymwybyddiaeth iechyd
11. dulliau casglu, dadansoddi a gwerthuso adborth o amrywiaeth o ffynonellau
12. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
13. theorïau sy'n berthnasol i hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
14. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
15. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
16. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd
17. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd, a sut i fynd i'r afael â hyn
18. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu

ymwybyddiaeth o faterion iechyd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD337

Hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD337 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Ymwybyddiaeth o Faterion Iechyd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |